

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys Contents

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Questions to the Minister for Health and Social Services	1
Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport	3

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Questions to the Minister for Health and Social Services

Ffigurau Amserau Aros Waiting Time Figures

<p>Q11 Jonathan Morgan: Will the Minister make a statement on today's (29 June) waiting time figures? OAQ0344(HSS)</p>	<p>C11 Jonathan Morgan: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ffigurau amserau aros heddiw (29 Mehefin)? OAQ0344(HSS)</p>
---	---

<p>The Minister for Health and Social Services (Brian Gibbons): Waiting times for out-patients waiting over 12 months at the end of May showed an improvement with over 70 per cent of patients waiting less than six months. There are also over 7,000 fewer people waiting over 12 months for in-patient treatment than this time last year.</p>	<p>Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons): Ar ddiwedd Mai gwelwyd gwelliant mewn amseroedd aros i gleifion allanol sydd wedi bod yn aros am dros 12 mis gyda dros 70 y cant o gleifion yn aros llai na chwe mis. Hefyd, mae 7,000 yn llai o bobl yn aros dros 12 mis am driniaeth fel cleifion mewnol nag ar yr adeg yma y llynedd.</p>
---	---

Pwysau Cyllidebol Budgetary Pressures

<p>Q12 Janet Ryder: What recent discussions has the Minister held with NHS trusts regarding budgetary pressures? OAQ0360(HSS)</p>	<p>C12 Janet Ryder: Pa drafodaethau a gafodd y Gweinidog gydag ymddiriedolaethau'r GIG yn ddiweddar ynghylch pwysau cyllidebol? OAQ0360(HSS)</p>
--	---

<p>Brian Gibbons: Local health boards and Health Commission Wales are issued annual budgets the previous December, and develop annual service and financial framework plans with NHS trusts. These and any associated budgetary pressures are reviewed by Welsh Assembly Government officials. Budgetary</p>	<p>Brian Gibbons: Dosberthir cyllidebau blynyddol i fyrddau iechyd lleol ac i Gomisiwn Iechyd Cymru yn y mis Rhagfyr blaenorol, ac maent yn datblygu cynlluniau gwasanaethau a fframwaith ariannol gydag ymddiriedolaethau'r GIG. Adolygir y rhain ynghyd ag unrhyw bwysau cyllidebol</p>
---	--

pressures are also discussed during my regular meetings with NHS chairs.

perthnasol gan swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd pwysau cyllidebol yn cael eu trafod hefyd yn fy nghyfarfodydd rheolaidd a chadeiryddion y GIG.

Gwasanaethau Cardiolog Cardiology Services

Q13 Nick Bourne: Will the Minister make a statement on the provision of cardiology services in Wales? OAQ0339(HSS)

C13 Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth o wasanaethau cardiolog yng Nghymru? OAQ0339(HSS)

Brian Gibbons: Provision of cardiology services is a matter for local health boards and Health Commission Wales, in partnership with NHS trusts. Waiting times have dropped in recent years, and service and financial framework targets for 2005-06 require that, by March 2006, no patient should wait more than six months for cardiac revascularisation.

Brian Gibbons: Mae darparu gwasanaethau cardiolog yn fater i fyrddau iechyd lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru mewn partneriaeth ag ymddiriedolaethau'r GIG. Mae amseroedd aros wedi gostwng yn y blynyddoedd diweddar ac mae targedau gwasanaethau a fframweithiau ariannol ar gyfer 2005-06 yn mynnu na ddylai unrhyw glaf, erbyn Mawrth 2006, orfod aros mwy na chwe mis am ailfasgwlaiddio'r galon.

Gwasanaethau Canser yn Ne Caerdydd a Phenarth Cancer Services in Cardiff South and Penarth

Q14 Lorraine Barrett: Will the Minister make a statement on cancer services in Cardiff South and Penarth? OAQ0354(HSS)

C14 Lorraine Barrett: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wasanaethau cancer yn Ne Caerdydd a Phenarth? OAQ0354(HSS)

Brian Gibbons: Tackling cancer remains one of the Welsh Assembly Government's top priorities for the NHS in Wales. Our strategy for improving services and access to treatments is through the progressive implementation of our national standards of cancer care and the advice of the National Institute for Health and Clinical Excellence.

Brian Gibbons: Erys mynd i'r afael â chanser yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y GIG yng Nghymru. Cyflawnwn ein strategaeth ar gyfer gwella gwasanaethau a hwyluso'r mynediad at driniaethau drwy weithredu'n gynyddol ein safonau cenedlaethol gofal cancer a drwy gyngor y Sefydliad Cenedlaethol er Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol.

Y Cyllid a Fuddsoddwyd yn y GIG yng Nghymru ers 1999 Funding Invested in the Welsh NHS since 1999

Q15 Irene James: Will the Minister make a statement about the increased funding invested in the Welsh NHS since 1999? OAQ0326(HSS)

C15 Irene James: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynnydd yn y cyllid a fuddsoddwyd yn y GIG yng Nghymru ers 1999? OAQ0326(HSS)

Brian Gibbons: NHS allocations have nearly doubled in the last seven years, increasing from £2.1 billion in 1999-2000 to £3.8 billion in 2005-06. This works out at an average annual increase of 11.6 per cent per annum.

Brian Gibbons: Mae dyraniadau'r GIG wedi dyblu bron yn ystod y saith mlynedd diwethaf, gan godi o £2.1 biliwn yn 1999-2000 i £3.8 biliwn yn 2005-06. Golyga hyn ar gyfartaledd gynnydd o 11.6 y cant y

flwyddyn.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport

'Iaith Pawb'

C10 Alun Ffred Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygiadau gweithrediad 'Iaith Pawb'? OAQ0335(CWS)

Q10 Alun Ffred Jones: Will the Minister make a statement on developments to implement 'Iaith Pawb'? OAQ0335(CWS)

Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh): Yr ydym yn parhau i wneud cynnydd da gyda gweithredu 'Iaith Pawb'. Bydd cyfle i drafod yr holl ddatblygiadau a llwyddiannau yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar ail adroddiad blynyddol 'Iaith Pawb' ar 5 Gorffennaf.

The Minister for Culture, Welsh Language and Sport (Alun Pugh): We continue to make good progress in implementing 'Iaith Pawb'. There will be an opportunity to discuss all the developments and successes during the Plenary debate on the second 'Iaith Pawb' annual report on the 5 July.

Celfyddydau Gweledol Visual Arts

Q11 David Melding: Will the Minister make a statement on the promotion of the visual arts in South Wales Central? OAQ0312(CWS)

C11 David Melding: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hyrwyddo'r celfyddydau gweledol Nghanol De Cymru? OAQ0312(CWS)

Alun Pugh: We invested over £1 million last year via the Arts Council of Wales to promote the visual arts in South Wales Central. Our policy of free entry to national museums enables people and families from all walks of life to see, enjoy and learn from the wonderful diversity of our national collections.

Alun Pugh: Buddsoddwyd dros £1 miliwn gennym y llynedd drwy Gyngor Celfyddydau Cymru i hybu'r celfyddydau gweledol yng Nghanol De Cymru. Mae ein polisi o roi mynediad am ddim i amgueddfeydd cenedlaethol yn peri bod pobl a theuluoedd o bob cefndir yn gallu gweld a mwynhau amrywiaeth ryfeddol ein casgliadau cenedlaethol a dysgu oddi wrthynt.

Hyrwyddo Atyniadau Diwylliannol The Promotion of Culutral Attractions

Q12 Janet Davies: Will the Minister make a statement on the promotion of culutral attractions in Wales? OAQ0278(CWS)

C12 Janet Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hyrwyddo atyniadau diwylliannol yng Nghymru? OAQ0278(CWS)

Alun Pugh: Wales has a wealth of cultural attractions, which offer a wide range of activities and facilities to different visitor markets, and are promoted in different ways. We take every opportunity to promote our varied cultural attractions, at home and abroad.

Alun Pugh: Mae gan Gymru gyfoeth o atyniadau diwylliannol sydd yn cynnig ystod eang o weithgareddau a chyfleusterau i wahanol farchnadoedd ymwelwyr, ac mae'r rhain yn cael eu hyrwyddo mewn ffyrdd gwahanol. Achubwn bob cyfle gartref a thramor i hybu ein hamryw atyniadau diwylliannol.

Hybu'r Iaith Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin The Welsh Language in Carmarthenshire

C13 Rhodri Glyn Thomas: Pa gynlluniau newydd sydd gan y Llywodraeth i hybu'r iaith Gymraeg yn sir Gaerfyrddin? OAQ0334(CWS)

Q13 Rhodri Glyn Thomas: What new plans does the Government have to promote the Welsh language in Carmarthenshire? OAQ0334(CWS)

Alun Pugh: Mae Llywodraeth y Cynulliad, drwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg, yn datblygu nifer o gynlluniau cadarnhaol er mwyn hybu'r iaith Gymraeg yn sir Gâr.

Alun Pugh: The Welsh Assembly Government, through the Welsh Language Board, is taking forward a number of positive initiatives aimed at promoting the Welsh language in Carmarthenshire.

Placiau i Goffáu ein Heiconau Diwylliannol Plaques to Commemorate Our Cultural Icons

Q14 Owen John Thomas: Will the Minister make a statement on the progress of my request to set up a fund for plaques to commemorate our cultural icons? OAQ0290(CWS)

C14 Owen John Thomas: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynnydd fy nghais i sefydlu cronfa ar gyfer placiau i goffáu ein heiconau diwylliannol? OAQ0290(CWS)

Alun Pugh: There are local initiatives that recognise people and buildings of importance in local communities. Such projects are more responsive to local needs than a centrally driven scheme, and may be eligible for funding from the Assembly Government

Alun Pugh: Mae mentrau lleol ar gael i gydnabod pobl ac adeiladau pwysig mewn cymunedau lleol. Mae prosiectau o'r fath yn ymateb yn well na chynllun canolog i anghenion lleol a gallant fod yn gymwys i dderbyn arian gan Lywodraeth y Cynulliad.

Creu'r Swydd o Ddyfarnydd Iaith The Creation of the Office of Dyfarnydd

C15 Elin Jones: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol ynglŷn â chreu'r swydd o ddyfarnydd iaith? OAQ0330(CWS)

Q15 Elin Jones: What discussions has the Minister had with the UK Government regarding the creation of the office of language adjudicator? OAQ0330(CWS)

Alun Pugh: Cefais gyfarfod gydag Is-Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Nick Ainger, ar 13 Mehefin. Yr ydym wedi trafod nifer o faterion, gan gynnwys sefydlu swyddfa'r dyfarnydd.

Alun Pugh: I met with Nick Ainger, the Parliamentary Under-secretary of State for Wales, on 13 June. We discussed a number of matters including the setting up of the office of dyfarnydd.